

PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

9 Tachwedd 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mr D Ellis, y Cynghorydd M James, y
Cynghorydd L Jenkins a'r Cynghorydd R Owens.

[Cyrrhaeddodd y Cynghorydd DWM Rees cyn y drafodaeth ar eitem 5, yr Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.00am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mrs G Hayward a'r Cynghorydd RM Lewis.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016.

4. Y Grŵp lechyd a Diogelwch: adroddiad am gyfarfod

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad am gyfarfod y Grŵp lechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp lechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2016.

5. Adroddiad am Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at fis Medi 2016

Yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr, a dechreuodd gyda'r gyllideb refeniw net. Ar 30 Medi 2016 roedd gwariant refeniw net yr Awdurdod ar £2,629k, £242k o dan y proffil o £2,871k am y cyfnod o 6 mis. Roedd y prif resymau am yr amrywiad yn y gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer pob adran o'r Gwasanaeth i'w gweld yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â materion amseru, arbedion staff ac incwm uwch na'r disgwyl o daliadau mynediad a meysydd parcio. Adlewyrchwyd y rhain yn Rhagolwg Refeniw 2016/17 hefyd.



O edrych ar y ffigurau ar gyfer gwerthiant nwyddau nododd yr Aelodau fod y darlun yn gymysg ond bod tuedd tuag i lawr yn gyffredinol a oedd yn destun pryder; holwyd a oedd y cynnyrch cywir ar werth. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod nwyddau yn faes anodd a bod gwariant twristiaeth yn y Sir yn gyffredinol hefyd i lawr eleni, ac roedd y Pasg yn rhan o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i ddeall y rhesymau am yr amrywiadau ar draws y safleoedd.

Soniwyd fod y rhaglen gyfalaf wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £150.9k i £313.1k. Roedd hyn oherwydd cynnwys rhaglen fawr o waith ailwampio meysydd parcio, a ariennir yn bennaf gan grant gan Lywodraeth Cymru, a gohirio'r prosiect Integreiddio Meysydd Parcio. Roedd y gwariant ar adnewyddu'r fflyd wedi cynyddu o £10k i £18.1k ac roedd y rhaglen hefyd nawr yn cynnwys gwaith ar y Caergawell yn Angle a maes parcio Castell Caeriw.

Roedd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £702k ar 31 Mawrth 2016 ac roedd disgwyl i hyn gynyddu i £799k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd y gwarged refeniw a ragwelir. Roedd disgwyl i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ostwng £90k i £1699k ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i wariant ar brosiectau cyfalaf a refeniw amrywiol. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi cymeradwyo creu tair cronfa wrth gefn arall ar gyfer prosiectau Pwyth yn ei Bryd, Llwybrau a Sgiliau ar Waith II.

NODWYD.

6. Adroddiad am Berfformiad am y Flwyddyn a ddaeth i Ben ar 30 Medi 2016

Atgoffodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau fod strwythur Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yn adlewyrchu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda saith amcan llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd wedi cael ei addasu i ddilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth lywodraethu gyffredinol.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd yn hyn am ddau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Nodwyd fod nifer o setiau data wedi eu dadelfennu i ddarparu adlewyrchiad cywirach yn y meysydd hyn. Roedd hyn yn cynnwys y data am 'hits' ar y wefan a gwybodaeth am berfformiad ar draws y tri safle ar wahân. Roedd categorïau'r digwyddiadau lechyd a Diogelwch hefyd wedi cael eu gwahanu i adlewyrchu'r gwahanol fathau o ddigwyddiadau a gofnodir.



Nododd yr Aelodau fod canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn 8 wythnos i lawr yn erbyn y targed. Ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud nad oedd yn poeni'n ormodol gan fod yr Awdurdod wedi bod heb Bennaeth Rheoli Datblygu tan fis Awst eleni, ac felly roedd y ffigurau wedi dal eu tir yn dda yn yr amgylchiadau. Fodd bynnag, byddent yn cael eu monitro. Gofynnwyd hefyd pa mor dda yr oedd perfformiad yr Awdurdod o gymharu ag Awdurdodau eraill yn hyn o beth a chytunodd y swyddogion i gael gwybodaeth am hyn a chyflwyno aroddiad yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd am ffigurau hefyd am nifer y bobl sy'n defnyddio llwybr yr arfordir a'r llwybrau troed eraill yn flynyddol. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai canlyniadau'r arolwg o ddefnyddwyr llwybrau gwledig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd, a byddai'r wybodaeth ar gael bryd hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am befformiad.

7. Y Gofrestr Risg

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod pryd y cafodd y cynnydd a'r newidiadau eu nodi. Yr unig newid oedd cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddarparu Gwybodaeth.

NODWYD.

8. Newidiadau i'r Broses Archwilio

Soniwyd bod Aelodau a swyddogion yr Awdurdod wedi dadlau ers sawl blwyddyn nad oedd y gofynion Archwilio a osodir ar yr Awdurdod yn sgil y Mesur Llywodraeth Leol yn addas at y diben, ac yn arwain at system orfiwrocraidd sy'n rhoi cost anghymesur ar yr Awdurdod. Roedd y sefyllfa hon yn debygol o waethygu gyda chyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gefnu ar y Cynllun Gwella Blynyddol a chyflwyno Cynllun Llesiant.

Fodd bynnag, roedd cyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle i ddatblygu dull newydd o weithredu, a chafodd hyn ei atodi i'r adroddiad. Felly, roedd rhaglen pedair blynedd wedi cael ei datblygu pryd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal cyfres o adolygiadau llywodraethu a oedd yn cefnu ar system archwilio sy'n seiliedig ar gynlluniau i un sy'n canolbwyntio fwy ar ddiwylliant a threfniadau. Byddai hyn yn cynnwys arolwg cyfrinachol o Aelodau, staff a rhanddeiliaid a byddai'r cwestiynau yn cwmpasu saith maes Cod Arfer Da CIPFA. Byddai hefyd grwpiau ffocws gydag Aelodau a staff a nifer fechan o gyfweiliadau strwythuredig.



Byddai'r broses yn dechrau ym mis Tachwedd 2016 a gobeithir cyflwyno adroddiad tua mis Ebrill 2017. Roedd yr amserlen yn welliant sylweddol ar y model presennol a byddai'n galluogi'r Awdurdod i ymateb yn llawer mwy cyflym i argymhellion.

NODWYD.

- 9. Dirpwyo materion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**
PENDERFYNWYD nad oedd materion o bryder yr oedd y Pwyllgor am eu dirpwyo i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus.

